

# CYNLLUN TALIADAU GOHIRIEDIG

***Os oes angen gwybodaeth arnoch ar ffurf neu iaith arall, cysylltwch â'r Tîm Gwybodaeth Gofal Cymdeithasol***

***Ffôn: 01446 704814. E-bost*** socialcareinfo@valeofglamorgan.gov.uk

## Cyflwyniad

Mae'r daflen hon ar gyfer pobl sydd ar fin symud i lety gofal preswyl parhaol yn ogystal â'u gofalwyr a'u teuluoedd.

## Beth mae'r daflen hon yn ei esbonio

Mae'n amlinellu'r cynllun taliadau gohiriedig sy'n eich galluogi i "ohirio" rhan o'ch taliad ar gyfer llety preswyl parhaol yn gyfnewid am roi arwystl cyfreithiol (morgais) i'r Cyngor ar eich prif neu'ch unig breswylfa. Mae rheoliadau'n caniatáu i awdurdodau lleol weithredu cynllun taliadau gohiriedig lle mae'r awdurdod lleol yn cymryd arwystl cyfreithiol ar brif gartref neu unig gartref y person (y mae ganddo'r hyn a elwir yn "fuddiant llesiannol") yn hytrach na chyfraniadau tuag at gost llety preswyl y person.

Y nod yw caniatáu i bobl ag eiddo ond heb incwm ac asedau eraill sy'n ddigonol i gyflawni eu cyfraniad asesedig yn llawn gael arwystl cyfreithiol ar eu heiddo i dalu am unrhyw ddiffyg. Trwy wneud hyn, gall pobl gadw eu cartrefi pan gânt eu derbyn i ofal preswyl ac am gyfnod y cytundeb taliadau gohiriedig.

## Gall awdurdodau lleol gytuno ar daliadau gohiriedig dim ond:

(a) os nad oes digon o incwm ac asedau eraill gan berson sy'n mynd i lety gofal preswyl parhaol neu sydd eisoes ynddo, ac eithrio gwerth ei brif neu ei unig gartref y mae ganddo fuddiant llesiannol ynddo i dalu am gost ei ofal; a
(b) os nad yw'r person, am ba reswm bynnag, yn dymuno gwerthu ei gartref neu os nad yw'n gallu gwerthu ei gartref yn ddigon cyflym i dalu am ei ffioedd cartref gofal.

Mantais "taliadau gohiriedig" yw, os yw rhywfaint o'r arian sydd gennych i dalu costau gofal ynghlwm wrth werth eich cartref, efallai na fydd angen i chi werthu eich cartref ar unwaith er mwyn talu'r costau hyn. Fodd bynnag, mae'n bwysig iawn eich bod yn gwneud hynny'n fanwl iawn. Dylech chi ofyn am gyngor ariannol annibynnol oherwydd gall fod pethau penodol i chi a'ch amgylchiadau sy'n golygu nad dyma'r ffordd orau o weithredu i chi.

**"Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English."**

## Asesiad Ariannol

Os ydych yn ystyried mynd i gartref preswyl neu nyrsio yn barhaol a bod eich cynilion yn llai na £50,000 (2026/27) a'ch bod yn berchen ar eiddo, efallai yr hoffech ystyried y cynllun hwn.

Er mwyn cael cymorth ariannol gan Gyngor Bro Morgannwg, bydd angen i chi lenwi ffurflen Datganiad o Adnoddau Ariannol. Bydd Swyddog Asesu Ariannol yn cyfrifo eich gallu i dalu am ofal preswyl yn unol â Rheoliadau Cynulliad Cymru.

Os ydych yn berchen ar eiddo neu'n rhannol berchen ar eiddo, gwneir penderfyniad o fewn yr asesiad ariannol ynghylch a fydd gwerth yr eiddo yn cael ei ystyried. Efallai y byddwn yn gofyn am gopïau o ddogfennau ac yn ceisio ein cyngor cyfreithiol ein hunain. Mae hyn yn golygu efallai na fyddwn yn gallu rhoi penderfyniad ar unwaith.

Fodd bynnag, os penderfynir y bydd yr eiddo yn cael ei ystyried yn yr asesiad ariannol ac nad ydych yn dymuno gwerthu eich eiddo a/neu efallai yr hoffech fynd i gartref drutach nag y byddai Bro Morgannwg yn ei dalu fel arfer, efallai yr hoffech gael eich ystyried ar gyfer y Cynllun Taliadau Gohiriedig. Yn y bôn, mae hyn yn golygu y gall y Cyngor gynnig benthyciad y byddwch chi neu eich ystâd yn ei ad-dalu pan fyddwch yn gadael y cartref gofal.

Rhoi gwybodaeth i chi yn unig y gall Swyddogion Asesu Ariannol ei wneud. Nid ydynt yn gallu rhoi cyngor i chi. Mae hyn yn bwnc cymhleth ac fe'ch argymhellir yn gryf i gael cyngor ariannol a chyfreithiol annibynnol. Bydd rhaid i chi dalu am unrhyw dâl a godir am hyn.

## Sut mae'r Cynllun Taliadau Gohiriedig yn gweithio?

Bydd angen i chi wneud cais trwy'r Swyddog Asesu Ariannol fel y gall Bro Morgannwg ystyried eich amgylchiadau unigol. Ar dudalen gefn y daflen hon mae slip torri i ffwrdd i chi ei ddefnyddio i wneud cais am daliadau gohiriedig, os dymunwch.

Cewch ofyn am daliadau gohiriedig ond nid oes gennych hawl i fynnu eu cael.

Gall y Cyngor wrthod eich cais am daliad gohiriedig. Fodd bynnag, os yw eich cais yn cael ei wrthod, byddwch yn cael y rheswm yn ysgrifenedig a byddwch yn cael gwybod sut i ofyn i'r penderfyniad gael ei adolygu. Ni fyddwch yn gallu gohirio eich taliadau os oes gennych ddigon o incwm neu asedau eraill ar wahân i werth eich cartref i dalu costau gofal preswyl. Er mwyn gohirio taliadau, nid oes rhaid i chi fod yn berchennog cyfreithiol nac yn unig berchennog yr eiddo ond rhaid bod gennych fuddiant llesiannol ynddo (hynny yw, mae'n rhaid bod gennych hawl i gael rhywfaint o'r arian o werthu'r eiddo).

Er y bydd penderfyniad y Cyngor mewn perthynas â thaliadau gohiriedig yn destun asesiad ym mhob achos unigol, mae materion ychwanegol i'w hystyried mewn perthynas ag eiddo lle mae morgais heb ei thalu’n llawn. O dan yr amgylchiadau hyn, gall y Cyngor gytuno ar daliad gohiriedig ond bydd

rhaid iddo fod yn fodlon y gallwch barhau i wneud taliadau morgais wrth wneud eich cyfraniad asesedig at gostau gofal ar yr un pryd.

Yn y daflen hon, cyfeirir at y rhan honno o'r cyfraniad y mae preswylydd yn atebol i'w thalu ond sy'n cael ei gohirio fel "cyfraniad gohiriedig". Wrth gytuno i daliadau gohiriedig unigol, bydd y Cyngor, ym mhob achos, yn ystyried maint y cyfraniad gohiriedig wythnosol a gwerth y buddiant llesiannol yn yr eiddo. Os bydd Cyngor Bro Morgannwg yn cytuno i daliad gohiriedig, bydd angen i'r holl bartïon perthnasol lofnodi dogfen gyfreithiol, a bydd copïau o'r ddogfen yn cael eu cadw gennych chi a'r Cyngor.

Bydd disgwyl i chi dalu cyfraniad yn seiliedig ar eich incwm wythnosol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys unrhyw daliadau rhent y gallech eu derbyn os byddwch yn dewis rhentu'ch eiddo. Bydd y diffyg rhwng y cyfraniad hwn a phris llawn y contract (namyn unrhyw gyfraniad gan y Bwrdd Iechyd Lleol) yn cael ei dalu gan Gyngor Bro Morgannwg i'r cartref gofal. Bydd y diffyg yn cronni fel benthyciad tan ddiwedd y cytundeb.

Os yw'ch eiddo i aros yn wag, bydd angen i chi ystyried diogelwch, yswiriant a gwaith cynnal a chadw.

**Taliadau cyfradd safonol**

Gall yr Awdurdod godi tâl safonol am y gwasanaethau canlynol:

a. gofal a chymorth a roddir dan Ran 4 DGCLl 2014 (bodloni anghenion);
b. Gwasanaethau ataliol (a15 DGCLl 2014);
c. Gwasanaethau cymorth (a17 DGCLl 2014).

Pan fydd yr Awdurdod yn ariannu lleoliad Cartref Gofal, tra bod y gost yn cronni yn erbyn gwerth eiddo'r person, bydd taliadau cyfradd safonol ar gyfer costau gweinyddol a chyfreithiol yn berthnasol, p'un a fyddwch yn dewis cofrestru ar gyfer cytundeb taliad gohiriedig neu beidio.

| Ffi | Pan godir tâl | Swm |
|---|---|---|
| Ffi Gychwynnol i dalu Costau Gweinyddol a Chyfreithiol | Dechrau Ariannu | £215.00 |
| Ffi weinyddol ar gyfer prisio eiddo a ffioedd y Gofrestrfa Tir | Dechrau Ariannu | £185.00 neu £430 am brisiad manwl, gan gynnwys ymweliad ag eiddo. Prisiad eiddo manwl uwch, ffi trwy drafodaeth. |
| Ffi flynyddol i dalu costau gweinyddol | I'w chymhwyso ar ben-blwydd y cyllid, bob blwyddyn mae'r benthyciad yn ddyledus. | £155.00 |

**"Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English."**

## Y Diystyriad Eiddo Deuddeg Wythnos

Am y 12 wythnos gyntaf ar ôl i chi symud i ofal preswyl yn barhaol, bydd gwerth eich cartref yn cael ei anwybyddu pan fydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyfrifo'r swm bydd angen i chi gyfrannu tuag at gost eich gofal.

Yn ystod y 12 wythnos hyn, bydd y cyfraniad y bydd gofyn i chi ei wneud yn cael ei asesu ar sail eich incwm, eich cynilion ac unrhyw asedau eraill sydd gennych a bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud iawn am unrhyw ddiffyg. Nid benthyciad neu daliad gohiriedig yw hwn ac ni fydd disgwyl i chi ad-dalu'r arian hwn yn ddiweddarach. Fodd bynnag, os byddwch yn gwerthu eich cartref yn ystod y cyfnod o 12 wythnos, bydd y diystyriad yn peidio â bod yn effeithiol o ddyddiad y gwerthiant.

## Taliadau Gohiriedig

Ar ôl 12 wythnos, gall y Cyngor ganiatáu i chi ohirio neu oedi'r diffyg rhwng costau'r cartref gofal a'ch cyfraniad asesedig. Byddech chi, neu'ch ystâd, ond yn talu'r cyfraniadau gohiriedig yn ôl os byddech chi'n gwerthu eich cartref neu'n gadael gofal preswyl. Ystyr hyn yw bod y Cyngor yn gwneud cyfraniad mawr at ariannu eich ffioedd cartref gofal am y tro, gan osgoi'r angen i chi werthu eich cartref ar unwaith. Mae'r Cyngor wedyn yn adennill yr arian yn ddiweddarach, naill ai gennych chi neu wrth werthu eich eiddo neu o'ch ystâd.

## Pryd mae'n rhaid ad-dalu'r taliad gohiriedig?

Rhaid ad-dalu'r arian naill ai:
(a) pan fydd yr eiddo wedi'i werthu; neu
(b) pan fyddwch yn terfynu'r cytundeb.
(c) os byddwch yn bodloni Gofal Iechyd Parhaus (GIP), bydd y cytundeb Taliad Gohiriedig yn cael ei derfynu, a byddwn yn eich hysbysu am y swm sydd wedi'i gronni.
(ch) o fewn 56 diwrnod i'ch marwolaeth*.
*pa un bynnag o'r digwyddiadau hyn sy'n digwydd gyntaf.

Byddwn yn anfon anfoneb atoch, eich perthynas agosaf neu eich ysgutor fel y bo'n briodol, gan gadarnhau'r swm terfynol.

## Beth am log?

Ni chodir llog yn ystod y cyfnod y caiff y taliadau eu gohirio.
Bydd llog yn cael ei godi os na chaiff y ddyled ei had-dalu ar ddiwedd y cyfnod y cytunwyd arno.

Mae'r gyfradd llog 0.15% yn uwch na chyfradd gilt y farchnad ac yn newid bob chwe mis ar 1 Ionawr ac 1 Gorffennaf bob blwyddyn a bennir gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Ar gyfer derbyniadau i gartrefi gofal ar ôl 1 Mai 2024 bydd y llog hwn yn arlogi ac yn cronni ar sail arlog.

## Rhai enghreifftiau o'r ffactorau y bydd Cyngor Bro Morgannwg yn eu hystyried cyn cytuno i Gytundeb Taliadau Gohiriedig.

Ydych chi’n deall y dogfennau cyfreithiol y gofynnir i chi eu llofnodi?

Os nad ydych yn deall yr hyn rydych yn ei lofnodi, a oes gennych gynrychiolydd ag Atwrneiaeth Barhaus neu Atwrneiaeth Arhosol sy'n gallu llofnodi'r ddogfen ar eich rhan?

Beth yw gwerth yr eiddo? A fydd digon o arian i dalu'r benthyciad yn ôl?

A oes morgais/benthyciad ar yr eiddo? A fydd digon o arian i dalu'r morgais a’r Benthyciad Taliad Gohiriedig?

A fydd angen taliad Trydydd Parti neu daliad 'ychwanegol'? Os felly, a fydd digon o arian ar gyfer hyn?

## Beth yw taliad Trydydd Parti neu daliad 'ychwanegol'?

Efallai y byddwch am fynd i gartref gofal lle mae'r ffioedd yn uwch nag y byddai Cyngor Bro Morgannwg fel arfer yn disgwyl eu talu. Gallai'r ffi uwch (ychwanegol) fod o ganlyniad i nifer o ffactorau ond gall gynnwys pethau fel gwell cyfleusterau neu leoliad mwy ffafriol.

Os ydym yn cytuno â chi y gellir defnyddio cynllun taliadau gohiriedig yn eich sefyllfa chi, efallai y byddwn yn rhoi’r taliad atodol i chi hefyd fel rhan o'r benthyciad.

Ni allwch dalu taliad 'ychwanegol' eich hun os ydym yn talu cyfraniad tuag at gost eich gofal, ac nid ydych wedi cofrestru â’r Cynllun Taliadau Gohiriedig.

## Faint bydd arnoch chi i’w dalu?

Bob blwyddyn, byddwch yn cael gwybod am gyfanswm y gost newydd fesul wythnos. Mae prisiau contractau i'r cartref yn cynyddu fel arfer a bydd eich cyfraniad yn cael ei ailasesu yn unol â chodiadau taliadau budd-dal. Byddwn hefyd yn anfon datganiad o'r cyfrifon atoch bob chwe mis.

## Beth os nad wyf am lofnodi cytundeb taliadau gohiriedig a'm bod am werthu fy nghartref?

Ni allwn eich gorfodi i werthu eich cartref. Fodd bynnag, gallwn osod arwystl cyfreithiol yn erbyn eich eiddo am ddyled a fydd yn cronni ar ôl y diystyriad 12 wythnos. Bydd hyn yn golygu pan fydd eich eiddo'n cael ei werthu, bydd yn rhaid i'ch cyfreithiwr dalu unrhyw arian sy'n ddyledus i Gyngor Bro Morgannwg cyn y gellir trosglwyddo unrhyw arian o'r gwerthiant i chi neu i'ch ystâd.

Os rhoddir arwystl cyfreithiol ar eich eiddo, cewch eich hysbysu ac fe'ch argymhellir i geisio eich cyngor cyfreithiol eich hun.

Os yw'r cartref preswyl a ddewiswch yn gofyn am daliad trydydd parti neu 'ychwanegol', ni fyddwch yn gallu cytuno i hyn oni bai y bydd person arall yn cytuno i dalu hyn i chi a llofnodi cytundeb priodol.

## **Beth am daliadau eraill?**

Gofynnir i chi gyfrannu at gostau chwiliadau'r Gofrestrfa Tir ac unrhyw gostau cyfreithiol eraill wrth godi'r taliad cyfreithiol ar eich cartref. Bydd y costau cyfreithiol a gweinyddol yn cael eu hychwanegu at y ddyled a gronnir.

## **Cael cyngor annibynnol**

Os yw'r Cyngor yn cytuno i'ch cais am daliadau gohiriedig, fe'ch argymhellir yn gryf i geisio cyngor ariannol a chyfreithiol annibynnol cyn i'r trefniadau gael eu cwblhau.

## **Rhai o'r rhesymau dros gael cyngor annibynnol**

• Bod yn glir ynghylch y goblygiadau cyfreithiol o gael arwystl cyfreithiol ar eich cartref.

• Cael gwybod pa gostau eraill y gellid eu cynnwys.

• Cael gwybod sut mae'n effeithio ar y budd-daliadau rydych yn eu cael neu y gallech eu derbyn.

• Cael gwybod a oes unrhyw oblygiadau eraill.

• Bydd angen i chi gadw a chynnal yr eiddo gwag, fel talu am yswiriant a biliau gwresogi, i ddiogelu'r eiddo rhag lleithder a rhew.

**"Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English."**

• **Am ragor o wybodaeth, cwblhewch y dudalen hon a'i hanfon i'r cyfeiriad isod.**

Hoffwn i Gyngor Bro Morgannwg ystyried cytundeb Taliadau Gohiriedig mewn perthynas â

Enw ……………………………………………………………

Cyfeiriad ……………………………………………………

Cysylltwch â mi dros y ffôn/trwy e-bost:-

Enw ______________________________________________

Cyfeiriad ______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

Rhif Ffôn ______________________________________________

Cyfeiriad e-bost:

______________________________________________

Llofnod: …………………………….. Dyddiad:…………………….

Anfonwch y ffurflen at:-

E-bost: propertycases@valeofglamorgan.gov.uk

Rhif ffôn: 01446 704620

**Sylwch y byddwn yn ysgrifennu atoch yn gofyn am ragor o ddogfennaeth, ar ôl i chi fod yn y cartref gofal am 12 wythnos.**

Mai 2026

**"Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English."**